

Y RHWYDWAITH
YMCHWIL
IECHYD MEWN
YSGOLION



SCHOOL
HEALTH
RESEARCH
NETWORK

Anhysbysrwydd Data ac Arolwg Ymchwil ac Iechyd Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn Ysgolion Cynradd



Maria Boffey yw Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a Materion Allanol y Rhwydwaith. Mae'n esbonio buddion data anhysbys y Rhwydwaith a sut y gellir ei ddefnyddio gan ysgolion, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau ac arferion i lywio iechyd a lles plant a phobl ifanc....

Pam ddylai ysgolion cynradd gofrestru i gymryd rhan yng nghasgliad data 2024 SHRN?

Mae'r Rhwydwaith wedi dod yn rhan unigryw ac amhrisiadwy o'r seilwaith iechyd a lles addysg yng Nghymru. Mae ein partneriaeth strategol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac integreiddio â Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles

(WNHWPS), ynghyd â buddsoddiad sylweddol a pharhaus gan Lywodraeth Cymru, wedi galluogi'r Rhwydwaith i dyfu'n rhwydwaith cenedlaethol o ymchwil a gwerthuso.

Mae mwy na tri deg o bolisiâu a strategaethau Llywodraeth Cymru yn enwi bod y Rhwydwaith yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno a gwerthuso agendâu ac ymyriadau polisi iechyd a lles. Mae'r rhain yn cynnwys y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd a Llesiant Meddyliol (2021) ac Adroddiad Iach a Hapus (2019) Estyn.

I ddysgu rhagor am fuddion niferus y Rhwydwaith, darllenwch [ein llyfryn gwybodaeth i ysgolion cynradd a'n llyfryn llwyddiant ysgolion ac effaith.](#)

A yw Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN yn ddienw?

Ydyw. Nid yw'r arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn casglu data personol adnabyddadwy. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys dynodwyr anuniongyrchol fel Oedran, Rhywedd, Blwyddyn enedigol, Ethnigrwydd a lleoliad daearyddol, ond byddai'n anodd tu hwnt defnyddio'r data hwn i ddarganfod pwy yw rhywun a gymerodd ran yn yr arolwg o blith y miloedd o blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan.

Pam mae data dienw SHRN mor bwysig?

Wrth archwilio anghenion iechyd a lles eich ysgol, mae'n bwysig treulio amser yn ystyried anghenion eich cymuned ysgol gyfan. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod polisi ac ymarfer yn cefnogi ac yn meithrin dysgwyr, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol ar draws yr ysgol.

Mae data anhysbys arolwg y Rhwydwaith yn amddiffyn preifatrwydd, gan rymuso ysgolion cynradd i wella iechyd a lles eu dysgwyr.

Mae'r Rhwydwaith a'i ddata anhysbys wedi dod yn rhan unigryw ac amhrisiadwy o'r seilwaith iechyd a lles addysg yng Nghymru ac, at hynny, nid yw'n costio ceiniog i ysgolion cynradd ac uwchradd.

Beth yw manteision data dienw SHRN?

Mae llawer o fuddion, gan gynnwys...

- **Gellir cadw data'r Rhwydwaith bob blwyddyn a bydd ganddo werth parhaus at ddibenion ymchwil.** Enghraifft o hyn fyddai defnyddio'r data i helpu deall newid dros gyfnod yn iechyd a lles plant a phobl ifanc trwy gyfuno data anhysbys blaenorol a dilynol arolwg y Rhwydwaith. Trwy ddadansoddi tueddiadau a phatrymau, gall ysgolion nodi meysydd o bryder, teilwra cymorth yn unol â hynny a gwerthuso'u cynnydd.

- **Gellir meincnodi canfyddiadau Arolwg y Rhwydwaith yn erbyn canfyddiadau cenedlaethol i ddarparu cyd-destun ehangach a chymhariaeth i ganfyddiadau lefel ysgol.** Mae ein data'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â dylanwadu ar ymchwil a pholisïau'r Deyrnas Unedig gyfan a rhyngwladol.
- **Gellir rhannu data Lefel Ysgol SHRN gyda staff addysgu; dysgwyr; llywodraethwyr ysgol; rhieni a gofawyr; lechyd Cyhoeddus Cymru ac Estyn i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn y trafodaethau am iechyd a lles plant a phobl ifanc.**
- **Mae'n helpu i ddatblygu diwylliant ysgol o ymyrraeth a newid. Yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r Holiadur Amgylchedd Ysgol (SEQ), mae data SHRN yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer nodi angen a phennu blaenoriaethau iechyd a lles i gefnogi gwella ysgolion.** Mae'r SEQ yn caniatáu ymchwilio i'r berthynas rhwng polisïau ysgolion (e.e. arweinyddiaeth ysgolion; ethos ysgol; yr amgylchedd; dysgu'r cwricwlwm; ymgysylltu â theulu a chymunedau) ac arferion a chanlyniadau iechyd myfyrwyr. Mae'n rhoi cyfle unigryw i ysgolion asesu iechyd a lles dysgwyr yng nghyd-destun eu polisïau a'u harferion ysgol. Mae hefyd yn ymdrin ag ystod o bynciau iechyd emosiynol a chorfforol i adlewyrchu Dull Ysgol Gyfan o lechyd a Llesiant a'r Cwricwlwm i Gymru.
- **Mae anhysbysrwydd data'r Rhwydwaith yn helpu ysgolion i werthuso'n wrthrychol, gan gynnig fframwaith ar gyfer cymhwys cyffredinol.** Mae arolygon eraill nad ydynt yn anhysbys yn dewis ac yn mesur mesurau lles penodol fel emosiwn cadarnhaol, gan nodi pwy yw dysgwyr ar yr un pryd. Gall meintioli profiadau goddrychol o'r fath fod yn heriol, gan ei gwneud hi'n anodd dewis graddfeydd ymateb priodol ac asesu cynnydd ysgol gyfan yn gywir. Yn ogystal, o ganlyniad i ddiffyg anhysbysrwydd, gall dysgwyr weithiau osgoi rhoi atebion onest i'r arolwg neu gymryd rhan mewn casglu data.
- **Mae anonymeiddio yn cyfyngu ar risgiau diogelu data ac mae'n galluogi gwybodaeth i gael ei ryddhau i sefydliadau eraill, neu i gymunedau iechyd ac addysg ehangach ar draws Cymru.** Yn gyffredinol, mae'n haws datgelu gwybodaeth anhysbys na data personol gan fod llai o gyfyngiadau cyfreithiol yn berthnasol. Hefyd, mae'n haws defnyddio gwybodaeth anhysbys mewn ffyrdd newydd a gwahanol, gan nad yw'r rheolau diogelu data yn berthnasol i ddata sydd wedi'i anonymeiddio'n gywir. Gellir rhannu canlyniadau o'r data yn eang mewn adroddiadau i ysgolion, awdurdodau lleol, lechyd Cyhoeddus Cymru, Estyn, consortia a Llywodraeth Cymru, a'u cyhoeddi mewn cyfnodolion gwyddonol, hefyd. Gellir eu defnyddio hefyd i gefnogi rhaglenni gwaith mewn clystyrau ysgolion.

Yn olaf, unrhyw negeseuon i'r ysgolion cynradd hynny sy'n ystyried cofrestru i gymryd rhan yng nghasgliad data 2024 y Rhwydwaith mewn ysgolion cynradd?

Mae cofrestru ar gyfer casglu data SHRN 2024 mewn ysgolion cynradd yn cau ar 19 Gorffennaf 2024, felly byddwn yn annog y rhai nad ydynt eto wedi cofrestru i gofrestru'n gyflym fel nad ydynt yn colli'r cyfle i fanteisio ar y manteision unigryw sydd gan SHRN i'w cynnig.

I ddysgu rhagor, ewch i shrn.org.uk

Y RHWYDWAITH
YMCHWIL
IECHYD MEWN
YSGOLION



SCHOOL
HEALTH
RESEARCH
NETWORK

Negeseuon Allweddol

- I wyllo ein gweminarau ar gasgliad data 2024 y Rhwydwaith mewn ysgolion cynradd, cliciwch ar y dolenni isod:

[An Introduction to The School Health Research Network \(SHRN\).](#)

Maria Boffey, Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a Materion Allweddol y Rhwydwaith.

[SHRN 2024 Data Collection for Primary Schools.](#)

Lianna Angel, Rheolwr Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

[Using SHRN for School Health and Well-being Improvements.](#)

Liz Western, Uwch Swyddog Iechyd Cyhoeddus, Arweinydd Hybu Iechyd a Lles Cyn Ysgol ac Ysgolion, Sir Benfro.

- I ddysgu rhagor am ein gwaith, cliciwch ar y ddolen hon i ddarllen y **[Llyfryn Gwybodaeth i Ysgolion Cynradd.](#)**

- I ddarllen mwy am ein straeon llwyddiant a'n heffaith mewn ysgolion, darllenwch [ein llyfryn Astudiaethau Achos ac Effaith](#)
- Sicrhewch y newyddion diweddaraf yn gyfleus i'ch blwch negeseuon e-bost trwy gofrestru ar gyfer ein e-newyddion misol i ysgolion cynradd. I gofrestru, e-bostiwch primarySHRN@Cardiff.ac.uk
- Ar gyfer unrhyw ymholiadau neu wybodaeth arall, e-bostiwch dîm y Rhwydwaith trwy glicio [yma](#).

